

Lefel 2

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae hwn yn gymhwyster lefel mynediad ar gyfer y rhai sy'n cymryd eu camau cyntaf tuag at yrfa yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r cwrs yn cyfuno dau gymhwyster – y Craidd, sy'n darparu'r wybodaeth ddamcaniaethol, ac yna'r Ymarfer, sy'n cael ei asesu yn y gweithle. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio, neu'n dymuno gweithio, yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gall lleoliadau gofal gynnwys cartrefi gofal, llety â chymorth, gwasanaethau iechyd meddwl, a gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, ymhlith eraill.

Manteision i'r dysgwr

- Mae'r cymhwyster yn unol â gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru, gan fodloni safonau'r sector er mwyn ennill sgiliau perthnasol a chofrestru.
- Hyfforddwyr profiadol sydd â'r arbenigedd i ddarparu hyfforddiant ar draws amrywiaeth o sectorau.
- Cymerwch reolaeth o'ch datblygiad personol a phroffesiynol.
- Ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol.
- Mynediad at gyfoeth o adnoddau drwy Moodle, ein platfform dysgu ar-lein.
- Cymorth personol wedi'i deilwra un-i-un.

Manteision i'r cyflogwr

- Hyfforddiant o safon uchel gyda graddiad Rhagorol/Da gan Estyn.
- Amrywiaeth o unedau ymarferol dewisol i deilwra'r cymhwyster i anghenion eich busnes.
- Hyrwyddo diwylliant o ddysgu a datblygiad sefydliadol.
- Ffocws cryf ar berfformiad yn y gweithle.

THE UK'S TOP 5 BEST LARGE COMPANIES TO WORK FOR 2025 certs.co.uk

EDUCATION & TRAINING'S #1 BEST ORGANISATION TO WORK FOR 2025 certs.co.uk

WORLD CLASS TO WORK FOR 2025 certs.co.uk

INVESTORS IN PEOPLE® We invest in people Standard

City & Guilds A City & Guilds Group Business

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Sgiliau Hanfodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i godi lefelau Sgiliau Hanfodol ledled Cymru. Mae cymwysterau Cyfathrebu, Llythrennedd Digidol a Chymhwyso Rhif yn elfen annatod o'r fframweithiau prentisiaethau a ariennir.

Fel arfer, caiff y rhain eu cyflwyno drwy weithdai yn un o'n canolfannau a byddant yn cael eu trefnu ymhell ymlaen llaw. Os ydych wedi cwblhau Sgiliau Hanfodol yn flaenorol neu'n gallu darparu tystiolaeth addas, megis tystysgrifau TGAU neu gymwysterau tebyg, efallai y cewch eich eithrio rhag cwblhau'r elfen hon o'r cymhwyster.

Sgiliau Hanfodol	
Bydd angen i ddysgwyr cwblhau:	
Cymhwyso Rhif Lefel 1	Lefel 1
Cyfathrebu Lefel 1	Lefel 1

Trosolwg o'r Cymhwyster

I gyflawni Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar bum uned orfodol. Cynhelir yr asesiad drwy astudiaethau achos a chwestiynau amlddewis. .

Teitl Uned
Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion)
Iechyd a llesiant (oedolion)
Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol
Diogelu unigolion
Iechyd a diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol

I gyflawni cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion), rhaid i ddysgwyr gyflawni o leiaf 35 credyd i gyd. Mae hyn yn cynnwys cwblhau'r uned orfodol yn ogystal â'r canlynol:

- Rhaid ennill o leiaf 14 credyd o Grŵp Opsiynol A.
- Gellir ennill y 7 credyd sy'n weddill o unedau yng Ngrwpiau Opsiynol A neu B.
- Mae angen ymweliadau misol gan diwtor, a gellir darparu ymweliadau neu gymorth ychwanegol os oes angen.
- Gall sesiynau gyda'r tiwtor bara hyd at ddwy awr. Caiff tasgau asesu diwedd y cymhwyster craidd eu goruchwylio, a rhaid caniatáu digon o amser i'w cwblhau'n llawn.
- Bydd yn cymryd 19 mis i gwblhau'r cymhwyster.

Uned Hanfodol

Teitl Uned	Gwerth Credyd	Oriau Dan Arweiniad
Cefnogi Ymarfer Craidd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion)	14	65

Undeau Opsiynol - Grŵp A

Teitl Uned	Gwerth Credyd	Oriau Dan Arweiniad
Cyfrannu at Ofal a Chefnogaeth Unigolion sy'n Byw yn y Cartref	7	45
Darparu Gofal a Chefnogaeth i Unigolion sy'n Byw mewn Lleoliadau Cartref Gofal	8	45
Cyfrannu at Gefnogi Unigolion sy'n Byw gyda Dementia	9	45
Cyfrannu at Gefnogi Unigolion wrth Ddefnyddio Technoleg Gynorthwyol Electronig	2	10
Cyfrannu at Gefnogi Unigolion i Gyflawni Eu Nodau Ail-alluogi	3	20
Cyfrannu at Gefnogi Unigolion sy'n Camddefnyddio Sylweddau	4	30
Hyrwyddo Cefnogaeth i Unigolion ag Anabledd Dysgu a/neu Awtistiaeth	7	40
Hyrwyddo Dulliau Cadarnhaol o Gefnogi Ymddygiad	6	40
Cefnogi Unigolion sy'n Byw gydag Afiechyd Meddwl	7	40
Cefnogi Unigolion ag Nam Corfforol	4	25
Cefnogi Unigolion ag Anaf i'r Ymennydd a Gafaelwyd	8	40

Undeau Opsiynol - Grŵp B

Teitl Uned	Gwerth Credyd	Oriau Dan Arweiniad
Cyflwyniad i Fesuriadau Ffisiolegol mewn Oedolion	3	15
Cefnogi Unigolion â Cholled Synhwyraidd	3	20
Cefnogi Arferion Diogelwch Bwyd mewn Lleoliadau Iechyd a Gofal	2	10
Cefnogi Unigolion i Reoli Poen ac Anesmwythdra	2	15
Darparu Cymorth i Oedolion sy'n Byw gydag Epilepsi	3	20
Darparu Gofal i Oedolion sy'n Byw gyda Chanser	4	20
Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Bywyd i Oedolion	7	35
Cefnogi'r Defnydd o Feddyginiaeth mewn Lleoliadau Gofal Cymdeithasol	5	35
Darparu Gofal a Chymorth i Oedolion â Chlefyd Coronaidd y Galon (CHD)	3	20
Cefnogi Maeth a Hydradu ar gyfer Unigolion ag Anghenion Dietegol Arbennig	2	20
Darparu Cymorth i Unigolion yn Dilyn Strôc	3	25
Ymateb i Adweithiau Anaffylactig	2	10
Cefnogi Unigolion wrth Symud a Lleoli	3	20
Cynnal Profion wrth y Pwynt Gofal	3	15
Cynnal Casglu Samplau	3	10
Cefnogi Oedolion sy'n Byw gyda Diabetes Mellitus	4	15
Cyflwyniad i Ddiffyg Anadl ac Asthma mewn Oedolion	2	10
Cefnogi Unigolion i Reoli Ymataliaeth	4	15
Cefnogi Unigolion i Gynnal Symudedd a Lleihau'r Risg o Gwympiadau	2	20
Cynnal Mesuriadau Cyfradd Llif Anadlol Brig (PEFR)	2	15
Cyflwyniad i Ddirywiad Acíwt	4	25
Cynnal Monitro Glwcos Gwaed Capilari	3	15
Cymryd Samplau Gwaed Gwythiennog gan Oedolion	3	20
Darparu Gofal i Oedolion â Chathetrau Wrinal Preswyl	3	20
Darparu Gofal a Chymorth i Oedolion â Chyflyrau Anadlol Cronig	3	20

Dilyniant

Ar ôl cwblhau'r cymhwyster hwn, gallech symud ymlaen i:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3: Ymarfer